# Defnyddio rhifau: Iechyd a llesiant

## Pecyn cymorth myfyrwyr

Archwiliwch bwysigrwydd mesurau iechyd a llesiant wrth asesu canlyniadau iechyd unigol a chymunedol. Dysgwch am y prif gysyniadau a therminoleg sy'n ymwneud â dangosyddion iechyd, penderfynyddion cymdeithasol iechyd a gwahaniaethau iechyd.





Office for National Statistics

# Cynnwys

Trosolwg

## Briffiau prosiect

### Daearyddiaeth: Gwahaniaethau iechyd

- Crynodeb ac amcanion dysgu
- Dechrau arni
- Camau nesaf
- Pethau i feddwl amdanynt

### Busnes: Defnyddio iechyd fel dangosydd

- Crynodeb ac amcanion dysgu
- Dechrau arni
- Defnyddio'r offer
- Pethau i feddwl amdanynt

### Cymdeithaseg: Dylunio mesur mynegai iechyd

- Crynodeb ac amcanion dysgu
- Ymchwil cefndir
- Dylunio eich mynegai
- Pethau i feddwl amdanynt

# Trosolwg

**Mae mynegai iechyd yn darparu un gwerth ar gyfer iechyd a llesiant a all ddangos sut mae iechyd yn newid dros amser. Mae Mynegai Iechyd Lloegr yn fesur cyfansawdd newydd a grëwyd gan y SYG yn 2020.**

Defnyddiwch yr offeryn Mynegai Iechyd a'r data crai byd go iawn a ddefnyddir i'w gyfrifo i ddadansoddi a dehongli tueddiadau a phatrymau iechyd a llesiant. Gallwch wneud hyn o fewn ardal leol neu ar draws rhanbarthau gwahanol a dylech ystyried arwyddocâd iechyd fel dangosydd.



# Trosolwg

## Offer a setiau data dan sylw

Offeryn Mynegai Iechyd (yn Saesneg): Offeryn rhyngweithiol i archwilio sut y newidiodd iechyd mewn gwahanol awdurdodau lleol ledled Lloegr rhwng 2015 a 2021, yn ôl y Mynegai Iechyd. Mae gan bob ardal leol yn Lloegr sgôr iechyd ar gyfer pob blwyddyn. Mae'r sgôr yn cynnwys mesurau mewn categorïau gwahanol gan gynnwys iechyd meddwl a chorfforol, megis teimladau o bryder a chyflyrau megis diabetes. Mae hefyd yn mesur diweithdra lleol a diogelwch ar y ffyrdd, yn ogystal ag ymddygiadau megis bwyta'n iach.

Mae sgôr uwch na 100 yn golygu bod gan ardal well iechyd ar gyfer y mesur hwnnw na'r cyfartaledd yn 2015, mae is na 100 yn golygu iechyd gwaeth na chyfartaledd 2015.

Data Mynegai Iechyd (yn Saesneg): Data sylfaenol a ddefnyddiwyd i lunio Mynegai Iechyd Lloegr, gan gynnwys manylion y dangosyddion. Mae data wedi'u dewis o amrywiaeth eang o ffynonellau i ganiatáu cymariaethau ar draws amser ac yn ôl daearyddiaeth, i lawr i lefel awdurdod lleol haen is.

# Trosolwg

## Adnoddau ychwanegol

- Dulliau a datblygiad Mynegai iechyd: 2015 i 2021 (yn Saesneg)
- Cynnwys a diffiniadau Mynegai iechyd (yn Saesneg)
- Data'r SYG ac erthyglau am iechyd a gofal cymdeithasol
- Offeryn data Dangosyddion Iechyd Craidd Ewropeaidd (yn Saesneg)
- Erthygl y Sefydliad Iechyd: mynegai iechyd ar gyfer Lloegr: cyfleoedd a heriau (yn Saesneg)
- Dangosfwrdd mesurau llesiant cenedlaethol y DU (yn Saesneg)
- Data cynhyrchiant llafur y SYG
- Mesurau cynhyrchiant economaidd y SYG



# Daearyddiaeth: Gwahaniaethau iechyd

Eich nod yw mapio gwahaniaethau iechyd o fewn ardal leol neu ar draws gwahanol ranbarthau. Byddwch yn archwilio ystod o ddata ystadegol sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant yn y DU, megis cyfraddau marwolaethau, nifer yr achosion o glefydau neu gwmpas brechiadau. Gallwch ddefnyddio'r data i greu graffiau, siartiau a thablau sy'n helpu i nodi'r prif dueddiadau a phatrymau.

## Amcanion dysgu

- Deall cysyniadau pwysig sy'n ymwneud â gwahaniaethau iechyd, gan gynnwys cyfraddau marwolaethau, nifer yr achosion o glefydau, cwmpas brechiadau a'u harwyddocâd i iechyd y cyhoedd.
- Datblygu hyfedredd mewn dadansoddi data a chreu cynrychioliadau gweledol amrywiol o ddata.
- Deall y ffactorau daearyddol sy'n cyfrannu at wahaniaethau iechyd a chynnig atebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â nhw, gan ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

# Daearyddiaeth: Gwahaniaethau iechyd

## Dechrau arni:

Enghreifftiau o gwestiynau i'w hateb neu ragdybiaethau i'w profi

- Sut mae cyfraddau marwolaethau yn amrywio rhwng ardaloedd lleol? Ydy'r ardaloedd â chyfraddau uchel yn rhannu unrhyw nodweddion?
- A oes unrhyw gydberthynas rhwng lefelau llygredd aer a chanlyniadau iechyd anadlol mewn gwahanol ranbarthau yn y DU?
- Sut mae cwmpas brechiadau yn amrywio ar draws rhanbarthau amrywiol yn y DU, a pha ffactorau sy'n cyfrannu at y gwahaniaethau hyn?
- Sut mae ffactorau ffordd o fyw megis diet, ymarfer corff a nifer o bobl sy'n ysmygu yn cyd-fynd â chanlyniadau iechyd cyffredinol mewn gwahanol feysydd?
- A oes unrhyw wahaniaethau yn nifer yr achosion o glefydau cronig rhwng cymunedau trefol a gwledig? Er enghraifft, diabetes neu glefyd y galon.
- Sut mae adnoddau gofal iechyd, megis ysbytai a chlinigau, yn dosbarthu ar draws rhanbarthau yn Lloegr, a pha oblygiadau sydd gan y dosbarthiad hwn i ganlyniadau iechyd?

# Daearyddiaeth: Gwahaniaethau iechyd

## Camau nesaf

Efallai yr hoffech ymgyfarwyddo â Mynegai Iechyd Lloegr a'r hyn y mae'n ei gynnwys a'r hyn nad yw'n ei gynnwys.

Gallech hefyd ddefnyddio offer mapio System Gwybodaeth Ddaearyddol neu lwyfannau mapio ar-lein i nodi ardaloedd sydd â sgorau is mewn dangosyddion Mynegai Iechyd gwahanol.



# Daearyddiaeth: Gwahaniaethau iechyd

## Pethau i feddwl amdanynt

- **Cymerwch amser i gynnal ymchwil drylwyr ar bwnc gwahaniaethau iechyd a ffynonellau data perthnasol sydd ar gael yn Lloegr.** Bydd deall y cefndir a'r cyd-destun yn eich helpu i wneud penderfyniadau gwybodus trwy gydol eich prosiect.
- **Ble byddwch yn dod o hyd i ddata ychwanegol os bydd ei angen arnoch?** Sut y byddwch yn cyfuno hynny â data'r SYG? Darganfyddwch pa ddata sydd ar gael ac ystyriwch ei gryfder cyn penderfynu ar eich cwestiwn neu ragdybiaeth.
- **Ydy eich delweddu data yn ychwanegu gwerth?** Gwnewch yn siŵr bod eich delweddau'n glir, yn gryno ac yn hawdd eu dehongli.
- **Penderfynwch ar gwmpas daearyddol eich dadansoddiad.** A ydych chi'n canolbwyntio ar Loegr gyfan neu ardal leol, dinas neu ranbarth penodol? Ystyriwch sut y gall y ffiniau daearyddol effeithio ar eich canfyddiadau.
- **Dewiswch newidynnau a dangosyddion perthnasol i astudio gwahaniaethau iechyd.** Ystyriwch ffactorau megis oedran, rhywedd, ethnigrwydd, statws economaidd-gymdeithasol a lleoliad daearyddol.

# Cymdeithaseg: Dylunio mesur mynegai iechyd

**Eich nod yw dylunio mesur mynegai iechyd cynhwysfawr sy'n adlewyrchu penderfynyddion cymdeithasol amrywiol iechyd. Bydd angen i chi wneud ymchwil cynhwysfawr i gael canfyddiad o natur aml-ddimensiwn iechyd a llesiant.**



## Amcanion dysgu

- Deall natur aml-ddimensiwn iechyd a llesiant, gan gydnabod bod ffactorau y tu hwnt i ofal meddygol yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd cyffredinol.
- Datblygu gwybodaeth am fynegeion iechyd gwahanol a'u harwyddocâd wrth asesu iechyd a llesiant cyffredinol poblogaethau.
- Dadansoddi a gwerthuso cryfderau a chyfyngiadau mynegeion iechyd presennol.
- Dysgu am neilltuo pwysau wrth greu mesur mynegai.

# Cymdeithaseg: Dylunio mesur mynegai iechyd

## Ymchwil cefndir

Efallai yr hoffech:

- drafod y cysyniad o fynegeion iechyd a'u pwysigrwydd wrth asesu iechyd a llesiant cyffredinol poblogaethau
- edrych ar enghreifftiau, megis y Mynegai Datblygiad Dynol a Mynegai Hapusrwydd Cenedlaethol Crynswth Bhutan, a thrafod manteision ac anfanteision y ffactorau y maent fel arfer yn eu cynnwys ac nad ydynt yn eu cynnwys
- ymchwilio ac archwilio penderfynyddion cymdeithasol iechyd, megis incwm, addysg, mynediad at ofal iechyd, rhwydweithiau cymorth cymdeithasol, statws cyflogaeth, amodau amgylcheddol ac ymddygiadau ffordd o fyw
- dysgu am neilltuo pwysau i wahanol ffactorau yn seiliedig ar bwysigrwydd canfyddedig wrth greu mesur mynegai

# Cymdeithaseg: Dylunio mesur mynegai iechyd

## Dylunio eich mynegai

Defnyddiwch ddata ac offer y Mynegai Iechyd presennol fel man cychwyn ar gyfer eich ymchwil. Mae'r Mynegai Iechyd wedi'i greu yn ddiweddar gan y SYG. Wrth ddylunio eich fersiwn eich hun o fynegai iechyd bydd angen i chi:

- ymchwilio a phenderfynu pa fesurau y byddwch yn eu cynnwys yn eich mynegai a pham
- ystyried sut y byddwch yn pwysoli gwahanol bwyntiau data yn seiliedig ar eu pwysigrwydd a sut y bydd y sgôr cyffredinol yn cael ei chyfrifo
- meddwl am ystyriaethau technegol, megis argaeledd data ac amlder casglu



# Cymdeithaseg: Dylunio mesur mynegai iechyd



## Pethau i feddwl amdanynt

- **Meddyliwch y tu hwnt i iechyd corfforol yn unig.** Ystyriwch iechyd meddwl, llesiant cymdeithasol, ffactorau amgylcheddol, mynediad at ofal iechyd a phenderfynyddion economaidd-gymdeithasol. Bydd angen i chi benderfynu'n ofalus beth i'w gynnwys a beth i beidio â'i gynnwys.
- **Ystyriwch sut y bydd eich mynegai yn dod o hyd i ddata perthnasol.** Ydy'r data ar gael o arolygon, astudiaethau ymchwil, adroddiadau'r llywodraeth a chronfeydd data gofal iechyd? Byddwch yn ymwybodol o duedd argaeledd.
- **Sut y byddwch yn neilltuo pwysau priodol i bob cydran yn y mynegai ar sail eu harwyddocâd?**

# Busnes: Defnyddio iechyd fel dangosydd

**Eich nod yw archwilio arwyddocâd iechyd fel dangosydd mewn prosesau gwneud penderfyniadau busnes ac ystyried sut y gall busnesau integreiddio metrigau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn eu gweithrediadau.**

## Amcanion dysgu

- Deall arwyddocâd dangosyddion iechyd mewn prosesau gwneud penderfyniadau busnes, ac effaith iechyd ar wahanol agweddau ar weithrediadau busnes.
- Dadansoddi'r rhesymau pam y gallai fod gan fusnesau ddiddordeb mewn dangosyddion iechyd, gan ystyried ffactorau megis cynhyrchiant, proffidioldeb, enw da a chynaliadwyedd.
- Archwilio sut y gall iechyd gweithwyr, cwsmeriaid a chymunedau ddylanwadu ar weithrediadau busnes, yn fewnol ac yn allanol.
- Ymchwilio i enghreifftiau o fusnesau sydd wedi integreiddio metrigau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn llwyddiannus yn eu strategaethau a'u prosesau gwneud penderfyniadau, gan nodi arferion gorau a gwersi a ddysgwyd.

# Busnes: Defnyddio iechyd fel dangosydd

## Dechrau arni

Enghreifftiau o gwestiynau i'w hateb neu ragdybiaethau i'w profi

- A all busnesau leihau costau gofal iechyd a gwella cyfraddau cadw gweithwyr drwy fuddsoddi mewn rhaglenni hybu iechyd?
- A yw metrigau cysylltiedig ag iechyd megis cyfraddau absenoldeb, defnydd gofal iechyd a boddhad gweithwyr yn cydberthyn i ddangosyddion perfformiad ariannol?
- A oes diwydiannau neu sectorau penodol lle mae integreiddio metrigau cysylltiedig ag iechyd i weithrediadau busnes yn arwain at y buddion mwyaf arwyddocaol?
- A all busnesau ddefnyddio technoleg a dadansoddeg data yn effeithiol i olrhain a mesur effaith mentrau iechyd ar ganlyniadau busnes?
- Sut mae tueddiadau byd-eang mewn iechyd a llesiant y cyhoedd yn effeithio ar strategaethau a blaenoriaethau corfforaethau rhyngwladol wrth integreiddio metrigau iechyd?

# Busnes: Defnyddio iechyd fel dangosydd

## Defnyddio'r offer

Defnyddiwch y setiau data i helpu i ateb eich cwestiwn neu i brofi eich rhagdybiaeth. Efallai yr hoffech edrych ar dueddiadau yn iechyd y boblogaeth, megis nifer yr achosion o glefydau, cyfraddau marwolaethau, disgwyliad oes a llesiant cyffredinol, a nodi’r heriau iechyd y gall busnesau eu hwynebu mewn gwahanol feysydd.

Gallech hefyd ymchwilio i ddata'r SYG ar gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am gyfraddau absenoldeb oherwydd salwch, materion iechyd galwedigaethol ac anafiadau sy'n gysylltiedig â gwaith. Gallech ddefnyddio'r data hwn i archwilio'r berthynas rhwng iechyd y gweithlu a pherfformiad busnes.



# Busnes: Defnyddio iechyd fel dangosydd

## Pethau i feddwl amdanynt

- **Beth yw'r rhwystrau a'r heriau posibl y mae busnesau'n eu hwynebu?** Beth ddylai busnesau ei ystyried wrth geisio integreiddio metrigau cysylltiedig ag iechyd i brosesau gwneud penderfyniadau?
- **A yw gofynion rheoliadol a safonau diwydiant yn dylanwadu ar fabwysiadu metrigau cysylltiedig ag iechyd gan fusnesau wrth wneud penderfyniadau?**
- **Beth yw'r goblygiadau moesegol?** Wrth feddwl am breifatrwydd a chaniatâd gweithwyr, beth yw'r goblygiadau moesegol i fusnesau o ddefnyddio data cysylltiedig ag iechyd i lywio penderfyniadau?
- **Ble byddwch yn dod o hyd i ddata ychwanegol os bydd ei angen arnoch?** Sut y byddwch yn cyfuno hynny â data'r SYG? A allwch gasglu unrhyw ddata sylfaenol gan wahanol randdeiliaid?